



## Bydd Gweithgareddau a Digwyddiadau Mentora yn cael eu cynnal ar draws y byd ar 27 Hydref

Mae'r Diwrnod Mentora Cenedlaethol yn cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy y mae mentora yn ei wneud i'r economi, busnesau, addysg, cymunedau a chymdeithas. Gall unrhyw un ymuno yn y dathliadau blynyddol i ddiolch i unigolion sy'n mentora o bob cefndir. Anogir mentoriaid i fentora rhywun ar y diwrnod. Mae'r ymgyrch wedi dod yn ddiwrnod pwysig yn y calendr ac mae'n cael ei ddathlu o amgylch y byd i dynnu sylw at fentoriaid a mentrau mentora sy'n gwneud gwahaniaeth.

Ein cenhadaeth yw sicrhau bod mentora yn hygyrch i bob unigolyn, plentyn, busnes neu grŵp sydd ei angen, waeth beth fo'u hoedran, cefndir neu ethnigrwydd. Mae'r Diwrnod Mentora Cenedlaethol yn addysgu, cysylltu, dathlu a chefnogi pob math o fentora ac rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni a chymryd rhan.

### Sut i gymryd rhan - Adnoddau AM DDIM

1. Anogir pawb i fentora rhywun ar y diwrnod. Ystyriwch gynnal digwyddiad, sgwrs neu weithgaredd mentora o gwmpas 27 Hydref. Ewch i [www.NationalMentoringDay.org](http://www.NationalMentoringDay.org)
2. Lawr lwythwch ein 'Cardiau Diolch i'ch Mentor' a'r "Canllaw Cymryd Rhan" am 35 o syniadau gweithgareddau i annog eraill i gymryd rhan.
3. Ar ôl i chi greu eich gweithgareddau, sgwrs, digwyddiad neu weithdy Diwrnod Mentora Cenedlaethol eich hun, gallwch rannu a phostio gan ddefnyddio @NMDglobal ynghyd â'r hashnod swyddogol #NationalMentoringDay
4. Defnyddiwch y diwrnod i gydnabod mentoriaid sydd wedi gwneud gwahaniaeth gyda'n cardiau 'Diolch i'ch Mentor' swyddogol y gellir eu hargraffu neu ein graffeg diolch cyfryngau cymdeithasol er mwyn e-bostio mentor arbennig neu i'w tagio mewn post i ddweud diolch.
5. Os oes gan eich sefydliad fenter fentora neu fentoriaid, mae hwn yn gyfle gwych i hyrwyddo'r hyn rydych yn ei wneud, rhoi diolch i fentoriaid ac arddangos eich llwyddiannau mentora mewnol neu allanol eich hun.
6. Os nad oes gan eich busnes neu'ch sefydliad fenter fentora, defnyddiwch y diwrnod i lansio un neu i gefnogi mentrau mentora eraill yn eich ardal neu'ch diwydiant i helpu arddangos ymrwymiad eich sefydliad i fuddsoddi mewn pobl.
7. Defnyddiwch y diwrnod i recriwtio mentoriaid neu ddod o hyd i fentor gan ddefnyddio ein [graffeg cyfryngau cymdeithasol, poster, bathodynau a baneri](#) am ddim i ysbrydoli ac annog mentora.
8. Yn y cyfnod cyn y diwrnod, rhannwch eich straeon mentora, awgrymiadau, ymchwil, arferion gorau neu astudiaethau achos.
9. Gallwch ddweud eich dweud drwy rannu manylion am y Diwrnod Mentora Cenedlaethol yn eich cynnwys marchnata. Crëwch neges fideo, podlediad, cylchlythyr, blog neu gyfweiliad. Gallwch hefyd ysgrifennu erthygl fentora neu ddatganiad i'r wasg.
10. Ymunwch yn y sgysiau gan ddefnyddio'r hashnod swyddogol #NationalMentoringDay

Twitter – <https://www.twitter.com/NMDglobal>

Instagram - <https://www.instagram.com/NMDglobal/>

Facebook <https://www.facebook.com/NMDglobal>

Gwefan — [www.nationalmentoringday.org](http://www.nationalmentoringday.org)

